

## DY DDYFODOL—SUT GELLI DI EI WYBOD?

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Esbonia'r broffwydoliaeth yn Daniel pennod 2 ag eglurder a brwdfrydedd. Adeilada hyder y gynulleidfa ym mhroffwydoliaethau sydd wedi'u cyflawni, ac felly eu hannog i roi ffydd yn y rhai sydd eto i'w cyflawni. Ar amserau priodol yn ystod yr anerchiad, defnyddia'r llun sydd wedi'i ddarparu ar [jw.org](http://jw.org) i ddarlunio breuddwyd Nebwchadnesar

### **MAE GWYBODAETH AM Y DYFODOL YN WERTHFAWR IAWN** (3 mun.)

Mae'r mwyafrif o bobl â diddordeb mawr yn yr hyn a ddaw yn y dyfodol

[Yn fyr, rhanna esiamplau, fel gwrando ar ragolygon tywydd neu rai economaidd]

O wybod yn sicr beth fydd yn digwydd yn y dyfodol, tebyg bydd hyn yn dylanwadu ar sut rydyn ni'n byw nawr  
I fanteisio ar wybodaeth am y dyfodol, rhaid inni fod yn barod i addasu ein penderfyniadau yn ôl y fath wybodaeth

### **MAE JEHOFA YN DATGELU'R DYFODOL** (16 mun.)

Yn ei Air Ysbrydoledig, y Beibl, mae Duw yn rhoi gwybodaeth gywir am y dyfodol [**Darllena Eseia 42:9**]

Mae Daniel pennod 2 yn cynnwys proffwydoliaeth gyffrous sydd yn ymwneud â'n dyfodol

Fe roddwyd y broffwydoliaeth hon tua 2,600 o flynyddoedd yn ôl, pan oedd Babilon yn ei hanterth fel grym bydol (Da 2:1-13)

Cafodd ei chyflawniad effaith fawr ar weision Duw yn y gorffennol a bydd yn parhau i wneud yn y dyfodol

Mewn breuddwyd, gwelodd Nebwchadnesar gerflun anferth a oedd i ddod at ddiwedd trychinebus (Da 2:31-35)

Datgelodd Jehofa ystyr breuddwyd broffwydol y brenin i Daniel (Da 2:14-30)

Eglurodd Daniel fod breuddwyd y brenin yn cynnwys cyfres o bwerau bydol

Datgelodd Daniel mai Nebwchadnesar oedd y "pen o aur," yn cynrychioli yr Ymerodraeth Fabilonaidd (Da 2:36-38)

Ymerodraeth Medo-Persia oedd y frest a breichiau arian (Da 2:39a)

Ym 539 COG, dymchwelodd Ymerodraeth Medo-Persia y Babiloniaid

Roedd dehongliad Daniel ynglŷn â Groeg, sef y bol a'r gliniau o bres, yn un cywir (Da 2:39b)

Cafodd 'y brenin cyntaf,' Alecsander Fawr, ei olynu gan ei bedwar cadfridog (Da 8:20-22)

Y bedwaredd deyrnas, a ddarluniwyd ar y ddelw gan y coesau o haearn, oedd yr Ymerodraeth Rufeinig (Da 2:40)

Yn 70 OG, drylliodd Rhufain haearnidd y gwrthryfel Iddewig a dinistrio Jerwsalem

Mae'r traed, sydd yn gymysgedd o haearn a chrochenwaith, yn cynrychioli'r Ymerodraeth Eingl-Americanaidd (Da 2:41-43; *w12-E* 6/15 16 ¶19)

Tyfodd yr Ymerodraeth Eingl-Americanaidd allan o'r Ymerodraeth Rufeinig a dechreuodd gydweithio fel pŵer bydol unedig yn ystod y Rhyfel Byd 1 (*w12-E* 6/15 15 ¶5, tdn)

Mae'r rhan hon o'r freuddwyd broffwydol yn cael ei chyflawni nawr

### **TEYRNAS DDUW YN UNIG FYDD YN PARHAU AM BYTH** (4 mun.)

Mae rhan olaf o freuddwyd Nebwchadnesar yn dangos beth fydd yn digwydd yn y dyfodol agos

Yn niweddglo'r freuddwyd, mae carreg a gafodd ei thorri allan o ochr mynydd yn dryllio'r ddelw [**Darllena Daniel 2:44, 45**]

Mae'r 'mynydd' yn symboleiddio sofraniaeth fyd-eang Duw; y 'garreg' yw'r Deyrnas Feseianaidd

Bydd Teyrnas Dduw yn dryllio'r teyrnasoedd sy'n cael eu cynrychioli gan ddelw'r freuddwyd (*w12-E* 6/15 17, blwch)

Mae Datguddiad yn datgelu bydd y Deyrnas yn gwared ar *bob* llywodraeth ddynol (Dat 16:14; 17:12-14)

Oherwydd bod rhannau o Daniel pennod 2 wedi eu cyflawni, gallwn ddisgwyl yn hyderus bydd y gweddill yn cael ei gyflawni yn fuan iawn

### **DANGOSA DY FFYDD YN ADDEWIDION DUW AT Y DYFODOL** (7 mun.)

Bydd byw dan reolaeth Teyrnas Dduw yn bleserus

Bydd cyfreithiau perffaith yn uno dynolryw mewn heddwch

Yn lle newyn a diffyg maeth, bydd digonedd o fwyd (Sal 72:7, 8, 16)

Mwynhau iechyd perffaith fydd pawb (Esei 33:24)

Bydd hyd yn oed diwedd ar farwolaeth (In 5:28, 29; Dat 21:3, 4)

Nawr yw'r amser iti ddangos trwy dy weithgareddau dy fod yn credu yn ac yn cefnogi Teyrnas Dduw (Mth 7:24-27)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169, a'r llyfryn *Darllen a Dysgu*, gwersi 4, 6, 8, 13, 14, 19]